

Cynllun Taliadau Gohiriedig

Helpu Perchnogion Cartrefi i dalu Costau Gofal Preswyl a Gofal Nyrsio hyd nes y Gwerthir eu Heiddo

Ffeithlen 6

(Tachwedd 2024)

Beth yw'r Cynllun Taliadau Gohiriedig?

Trefniant cyfreithiol yw'r Cynllun Taliadau Gohiriedig er mwyn caniatáu i rywun sy'n symud i gartref gofal preswyl neu ofal nyrsio gytuno bod yr awdurdod lleol yn talu rhan o'i ffioedd cartref gofal hyd nes y gall gael gafael ar arian sydd ynghlwm wrth ei (h)eiddo. Mae'r cynllun ar gael i'r unigolion hynny sy'n berchen ar eiddo ac sydd â chynilion ac/neu asedau eraill sydd yn is na'r trothwy cyfalaf uchaf ac sydd heb incwm wythnosol digonol i dalu costau llawn eu gofal. Bydd yn rhaid ad-dalu unrhyw arian y mae'r awdurdod lleol yn ei dalu yn yr amgylchiadau hyn pan fo'r eiddo'n cael ei werthu neu pan nad oes angen y gofal mwyach. Mae'r trefniant yn debyg iawn i fenthyciad neu forgais am y cyfnod a nodwyd yn nhelerau ac amodau'r Cytundeb Taliadau Gohiriedig. Bydd angen i chi gytuno bod y Cyngor yn gosod tâl cyfreithiol ar yr eiddo fel sicrwydd am y ddyled.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Awdurdod yn codi ffi am brisio'r eiddo nac am drefnu'r cytundeb Taliadau Gohiriedig a hefyd nid yw'n codi llog ar unrhyw ddyled tan 91 diwrnod ar ôl y dyddiad y bu farw'r preswlydd, neu maent yn gadael y cartref gofal, fodd bynnag, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae'r awdurdod yn codi ffi gweinyddu, ar hyn o bryd £200.00, am drefnu'r cytundeb Talu Gohiriedig.

Dylech fod yn ymwybodol, gan fod ffioedd cartrefi gofal yn cynyddu bob blwyddyn fel arfer, neu os oes newid yn eich anghenion, bydd y swm sy'n cael ei ohirio hefyd yn newid yn unol â chost lawn y lleoliad a swm yr incwm a dderbynnir (y gwahaniaeth rhwng y ddau ffigur hyn yw'r swm a fydd gohiriedig).



I gael gwybodaeth am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ewch i:
www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol

Ar gyfer pwy y mae'r cynllun?

Mae'r cynllun ar gyfer perchnogion cartrefi sy'n symud yn barhaol i gartrefi gofal preswyl neu ofal nyrsio a gyllidir gan yr awdurdod lleol, ac sydd naill ai:

- heb ddigon o arian i dalu am eu gofal
- ddim eisiau gwerthu eu cartref neu sy'n
- methu â gwerthu eu cartrefi yn ddigon buan i dalu am eu gofal.

Sut yr wyf yn gymwys ar gyfer y cynllun?

Er mwyn ymuno â'r cynllun, mae'n rhaid:

- bod yr Adran Cymunedau wedi penderfynu drwy asesiad fod angen gofal preswyl neu ofal nyrsio mewn cartref gofal arnoch
- eich bod yn gymwys i gael cyllid gan y Cyngor
- bod gennych fuddiant llesiannol mewn eiddo yr ydych wedi bod yn byw ynddo, a bod y buddiant hwnnw'n werth digon i ad-dalu'r tâl a aseswyd
- eich bod yn talu cyfraniad wythnosol ar sail asesiad o'ch incwm a'ch asedau

Yn ogystal mae'n rhaid bod yr amodau canlynol yn berthnasol:

- nad yw'r eiddo wedi cael ei ddiystyru fel rhan o'r broses asesu ariannol
- bod eich asedau cyfalaf eraill (heb gynnwys eich eiddo) yn is na'r trothwy cyfalaf uchaf ac nad oes gennych incwm wythnosol digonol i dalu'r tâl llawn
- eich bod yn cytuno â holl delerau ac amodau'r cytundeb taliadau gohiriedig a gynigir
- bod unrhyw berson arall sydd â buddiant yn yr eiddo yn caniatáu'r cytundeb taliadau gohiriedig
- bod yr Awdurdod Lleol yn gallu creu'r tâl cyntaf ar yr eiddo fel sicrwydd ar gyfer y ddyled, mae hyn yn golygu y bydd angen cofrestru'r Eiddo gyda Chofrestrfa Tir EM.

Gwrthod/Terfynu Cytundeb Taliadau Gohiriedig

Mae'r Awdurdod Lleol yn gallu gwrthod cytundeb taliadau gohiriedig mewn rhai amgylchiadau:

- lle nad yw'r Awdurdod Lleol yn gallu cael caniatâd unrhyw berson arall sydd â buddiant yn yr eiddo
- lle nad yw'r Awdurdod Lleol yn gallu cael y tâl cyntaf ar yr eiddo

- lle mae eich cyfalaf (oni bai am eich eiddo) yn fwy na'r trothwy cyfalaf uchaf, neu fod gennych incwm wythnosol digonol i dalu'r tâl llawn am y cartref gofal
- lle nad ydych chi yn cytuno ar amodau a thelerau'r Cytundeb Taliadau Gohiriedig

Yn ogystal gall yr Awdurdod Lleol stopio gohirio costau gofal/terfynu Cytundeb Taliadau Gohiriedig yn barhaol neu dros dro, mewn rhai amgylchiadau:

- lle nad oes digon o ecwiti yn yr eiddo ar ôl ystyried y swm sydd eisoes wedi'i ohirio
- lle mae'r eiddo o ganlyniad yn cael ei ddiystyru o'r broses asesu ariannol
- lle caiff yr eiddo ei werthu a lle bo'r costau gofal dyledus wedi'u talu'n llawn (gan gynnwys llog a ffioedd os ydynt yn berthnasol)
- lle mae'r preswilydd yn marw
- lle mae'r costau gofal sy'n ddyledus wedi'u talu'n llawn (gan gynnwys llog a ffioedd os yw'n berthnasol)
- bod eich asedau cyfalaf eraill (heb gynnwys eich eiddo) yn fwy na'r trothwy cyfalaf uchaf ac/neu fod gennych incwm wythnosol digonol i dalu'r tâl llawn
- lle nad oes gennych mwyach angen a aseswyd ar gyfer gofal mewn cartref gofal
- lle mae telerau ac amodau'r cytundeb Taliadau Gohiriedig wedi'u torri, ac ni ellir llwyddo i ddatrys hyn

Yn ogystal gallwch ddewis terfynu cytundeb Taliadau Gohiriedig. Wedyn bydd angen talu'n llawn unrhyw swm gohiriedig.

Sut y mae'r cynllun yn gweithio?

Cynigir asesiad ariannol i bawb er mwyn pennu'r swm y bydd yn rhaid iddynt ei dalu tuag at gostau eu gofal ac am y deuddeg wythnos gyntaf, ni chaiff eich eiddo ei ystyried yn rhan o'r cyfrifiad. O'r 13^{eg} wythnos, caiff eich eiddo ei gynnwys yn yr asesiad ariannol ac mae'n bosibl y bydd y swm sydd angen ichi ei dalu fesul wythnos yn uwch na'ch incwm. Bydd dal disgwyl i chi dalu elfen incwm eich tâl i'r Cyngor, byddai hyn yn cynnwys unrhyw incwm rhent a dderbynnir, a bydd gweddill y tâl sy'n berthnasol i'ch eiddo yn cael ei ohirio. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i chi ystyried y ffordd orau o dalu costau eich gofal, gallech ddewis:

- gwerthu eich eiddo
- ymrwymo i gytundeb Taliadau Gohiriedig
- talu'r tâl llawn o'ch cyfalaf neu'ch incwm a ddiystyrir
- rhentu eich eiddo i denantiaid a thalu'r taliadau o'ch incwm rhent
- i drydydd parti gyfrannu tuag at eich costau gofal

- cadw llai o'ch Isafswm Incwm er mwyn lleihau'r swm gohiriedig

Mae ymrwymo i Gytundeb Taliadau Gohiriedig yn golygu y byddwch yn cael cyfle i ohirio rhan o'r taliad hyd ddyddiad diweddarach ac er mwyn gwneud hyn, bydd y Cyngor yn trefnu i brisio'r eiddo a bydd angen ichi gytuno bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gosod tâl cyfreithiol ar eich eiddo fel sicrwydd ar gyfer y ddyled. Yn gyfnewid am hyn, bydd y Cyngor yn talu gweddill y costau gofal hyd at raddfa gytûn a bennir yn unol â'r swm a fyddai wedi ei dalu petaech wedi gwerthu'r eiddo, i'w ad-dalu yn ddiweddarach.

Bydd y cyfanswm y gallwch ei ohirio yn cael ei benderfynu yn ôl gwerth eich eiddo a lefel y costau gofal sy'n cael eu gohirio - darperir datganiad bob 6 mis sy'n dangos y swm gohiriedig.

Os ydych yn ymrwymo i drefniant talu gohiriedig gallech ddefnyddio'r cynllun i dalu am lety sy'n costio mwy hefyd, yn dibynnu ar werth net eich eiddo.

Mae'n bosibl y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol cyn ymrwymo i gytundeb Taliadau Gohiriedig.

Dylech roi gwybod i'r Awdurdod Lleol os byddwch yn penderfynu gwerthu eich eiddo. Bydd angen ichi dalu'r swm gohiriedig yn llawn gan ddefnyddio elw'r gwerthiant a bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ollwng y tâl cyfreithol ar yr eiddo. Efallai y bydd llog ar y ddyled hefyd yn ddyledus.

Pryd y mae'n rhaid ad-dalu'r arian?

Mae'n rhaid ad-dalu'r swm gohiriedig pan fydd y cytundeb Taliadau Gohiriedig yn cael ei derfynu e.e.

- ar ôl i'r eiddo gael ei werthu
- pan fyddwch yn terfynu'r cytundeb
- o fewn 90 diwrnod ar ôl eich marwolaeth neu pan fyddwch yn gadael y cartref preswyl/nyrsio

Anfonir anfoneb am y swm sy'n ddyledus a fydd yn cynnwys manylion ynghylch sut y gellir ei dalu. Os na thelir yr anfoneb, dilynir proses adennill dyledion arferol yr Awdurdod.

Codir llog os nad ad-delir y ddyled ar ddiwedd y cyfnod a gytunwyd. Bydd y gyfradd llog 0.15% yn uwch na chyfradd y Farchnad Gilt a bydd y gyfradd hon yn cael ei hadolygu bob mis Ionawr a Gorffennaf.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gollwng y tâl cyfreithol ar yr eiddo ar ôl i'r swm sy'n ddyledus gael ei ad-dalu.

Sut yr wyf yn gwneud cais i ymuno â'r Cynllun Taliadau Gohiriedig?

Os ydych yn gorfod mynd i gartref preswyl neu gartref nyrsio yn barhaol yn dilyn asesiad Gofal Cymdeithasol, ar ôl cwblhau'r ffurflen 'Datganiad Modd - Asesiad Ariannol', bydd y Swyddog Asesiadau Ariannol yn ysgrifennu atoch â chanlyniad eich asesiad ariannol a manylion sut i ymuno â'r cynllun os yw'n berthnasol. Byddwn yn trefnu prisio eich eiddo ac yn dilyn hynny, bydd llythyr contract ac amodau'r cytundeb yn cael eu hanfon atoch. Bydd y rhain yn nodi'r taliadau wythnosol a asesir, sydd i'w gwneud o dan y cynllun ac amodau'r cytundeb. Bydd gofyn i chi gofrestru'r eiddo gyda'r Gofrestrfa Tir os nad yw hyn wedi'i wneud eisoes. Oherwydd gofynion y Gofrestrfa Tir, bydd angen i ni wireddu hunaniaeth y person sy'n berchen ar yr eiddo y bydd y tâl yn cael ei gofrestru yn ei erbyn a hefyd wireddu hunaniaeth y person sy'n gwneud y cais am Gytundeb Taliadau Gohiriedig ar ran y preswlydd (e.e. Atwrnai neu Ddirprwy'r preswlydd)

Beth os wyf yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Taliadau Gohiriedig ond fy mod yn dewis peidio â gwneud?

Os cynigir Cytundeb Gohirio Taliadau i chi ond eich bod yn methu, neu yn dewis peidio ag ymuno â'r cynllun, bydd Adran 59 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dod i rym. Bydd yr awdurdod yn trefnu bod tâl cyfreithiol yn cael ei osod ar eich eiddo. Bydd hyn yn diogelu'r swm a fydd yn ddyledus i'r awdurdod pan fo'r eiddo'n cael ei werthu. Os bydd y ddyled yn dal heb ei thalu ar ôl eich marwolaeth/gwerthu'r eiddo/diwedd lleoliad y cartref gofal, yna codir llog ar y gyfradd llog cyffredinol o'r 91ain diwrnod ar ôl i'r eiddo gael ei werthu/diwedd lleoliad y cartref gofal. Bydd yr awdurdod yn codi ffi weinyddu, sy'n £200.00 ar hyn o bryd, am y trefniant hwn.

Beth os wyf yn cael gofal preswyl eisoes?

Os ydych yn cael gofal preswyl eisoes ond newydd glywed am y Cynllun Taliadau Gohiriedig, mae'n bosibl eich bod yn dal i fod yn gymwys. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r swyddfa isod.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth am y cynllun?

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, cysylltwch â:

Yr Adran Cymunedau
Tîm Asesiadau Ariannol
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
SA31 1LE

Rhif Ffôn: 01267 228977

Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael yn Saesneg. Os hoffech gael y daflen ffeithiau hon mewn unrhyw fformat arall, ffoniwch 01267 228703 neu ddanfon e-bost i gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk



I gael gwybodaeth am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ewch i:
www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol